



Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

Y PERERIN RHITHWIR

Moshe Caine, Athro Cyfathrebiadau Ffotograffig, [Coleg Academiaidd Hadassah Caersalem](#)



Am ganrifoedd, bu dinas Caersalem yn ganolfan ar gyfer profiadau cymdeithasol ac ysbrydol cymunedau amrywiol sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu cartrefi a'u diwylliannau.

Yn y prosiect hwn, mae syniad y croesgadwyr o 'Gaersalem Newydd', ail-gread ffisegol o ddinas sanctaidd Caersalem yn Ewrop, wedi'i wrthdroi a'i weithredu drwy gyfrwng technolegau realiti rhithwir wedi'u cymhwyso at ddwy gymuned a ymfudodd i Gaersalem o dramor ac a ailgreodd eu cartrefi a'u haddoldai.

Y nod yw darganfod i ba raddau y gall technoleg ddigidol bontio'r gagendor rhwng y ffisegol a'r emosiynol. Mynegi a chryfhau'r berthynas ddialectegol rhwng lleoliadau daearyddol amrywiol, wedi'u hamlygu drwy gymunedau coll ac ailanedig, yr hen Gaersalem a'r Gaersalem Newydd.




Edrychir ar ddau achos prawf: Synagog wedi'i hail-greu cymuned goll Conegliano Veneto, Yr Eidal, ac Eglwys Ethiopiaidd Kidane Mehret. Mae'r ddwy yng Nghaersalem erbyn heddiw.

Gan ddefnyddio sganio laser a ffotogrametreg, caiff y ddau adeiladwaith eu hail-greu fel cymylau pwyntiau 3D, ac ychwanegir seiniau gweddïo a delweddau hanesyddol. Rydym yn ceisio creu profiad emosiynol sy'n codi uwchlaw amser a gofod ac sy'n dwysáu profiad cymhleth bywyd mewn cartref oddi cartref.

Mae'r Pererin Rhithwir yn ceisio cynnig profiad personol, sy'n mynd y tu hwnt i wrthrychedd technoleg ac yn arwain y defnyddiwr ar daith ysbrydol bersonol, ar bererindod rithwir.

Mae dwy elfen hanfodol yn cyfrannu at hyn: y penset realiti rhithwir a'r profiad clyweled cwmwl-pwyntiau. Nod y rhain yw creu taith, lle gallwch grwydro fel y mynnwch a phrofi awyrgylch cyfnosol, heb eich rhwymo gan ofod nac amser.

Yn y papur, amlinellir ystyriaethau, cyfyngiadau, a datrysiadau wrth ail-greu'r adeiladweithiau'n ddigidol. Trafodir hefyd y broses o gyfuno'r her dechnegol â'r effaith emosiynol a geisir ar y defnyddiwr.



Bywgraffiad

Graddedig o Brifysgol Hebreidd Caersalem (1977), Coleg Technoleg a Chelf Harrow, Llundain (1980), a Choleg Polytechnig Coventry (1989).

Mae gwaith yr Athro Caine yn adlewyrchu esblygiad cyfryngau gweledol, gan gynnwys ffotograffiaeth, amlgyfryngau rhyngweithiol, Realiti Rhithwir/Realiti Ychwanegol, amlsbectrol, ffotogrametreg, sganio 3D, RTI, DAM, UI, UX.

Yn un o arloeswyr y diwydiant amlgyfrwng yn Israel, fe sefydlodd a bu'n rhedeg cwmni Icons yng Nghaersalem (1989-2009).

Yn academydd ers 1981.

Am 25 mlynedd bu'r Athro Caine yn arbenigo mewn datrysiadau digidol ar gyfer sefydliadau sy'n diogelu treftadaeth ddigidol, ym meysydd archaeoleg, cadwraeth, adfer a chyflwyno. Mae ganddo brofiad helaeth o weithio gydag amgueddfeydd a sefydliadau addysgol.